Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Pontio Teg

## Canllaw i helpu Cymru i gyrraedd sero net mewn ffordd sy'n deg i bawb



Rhagfyr 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o:
**Fframwaith Pontio Cyfiawn.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:**
www.llyw.cymru/newid-yn-yr-hinsawdd

**Ebost:**
climatechangeandenergyefficiency@gov.wales

**Ffôn:**
0300 0604400

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 4035272477

# Cynnwys


**Am y canllaw yma ........ 4**

**Pam rydyn ni angen y canllaw yma ........ 7**

**Beth rydyn ni ei eisiau i Gymru ........ 9**

**Beth sydd angen ei wneud ........ 12**

**Egwyddorion arweiniol ........ 16**

**Sut fyddwn ni'n defnyddio'r canllaw ........ 22**

**Sut mae pobl sy'n ymwneud â gwneud cynlluniau a phenderfyniadau yn gallu defnyddio'r canllaw ........ 26**

**Geiriau anodd ........ 29**

# Am y canllaw yma




Rydyn ni'n bwriadu cyrraedd **sero net** erbyn 2050.



Mae **sero net** yn meddwl faint o nwy niweidiol rydyn ni'n ei roi i'r awyr yn ddim mwy na'r swm rydyn ni'n gallu ei gymryd allan ohono.

Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:

- leihau faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi i'r awyr.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.




Fe fydd y symud i **sero net** yn newid llawer o bethau. A bydd rhai heriau hefyd.




Fe fyddwn ni angen sgiliau a thechnolegau newydd.




Rydyn ni wedi ysgrifennu canllaw i helpu  i wneud yn siŵr bod y manteision a'r costau yn cael eu rhannu'n deg gan bawb.



Enw'r canllaw ydy'r **Fframwaith Pontio Cyfiawn**.



Rydyn ni eisiau i bawb ddefnyddio'r canllaw wrth wneud cynlluniau, polisïau a phenderfyniadau newydd am leihau nwyon niweidiol.



Mae'r canllaw yn helpu sefydliadau i feddwl am sut mae eu penderfyniadau yn gallu effeithio ar bawb.




Mae'r canllaw yn cynnwys:

- Beth rydyn ni ei eisiau i Gymru.
- Beth sydd angen ei wneud i wneud yn siŵr bod y symud i **sero net** yn deg i bawb.
- Egwyddorion - rheolau i helpu i gadw pethau'n deg i bobl a'r blaned.

# Pam rydyn ni angen y canllaw yma



Mae newid hinsawdd yn digwydd yn barod. Rhaid i ni weithredu nawr i amddiffyn ein planed.





Mae mynd i'r afael gyda newid hinsawdd yn her fawr i bawb.




Mae angen i ni edrych ar sut  fydd ein gwaith i amddiffyn y blaned yn effeithio ar bobl a'r lleoedd maen nhw'n byw.



Fe fydd y newidiadau yn effeithio ar fusnesau, gwasanaethau, cymunedau, a phobl mewn gwahanol ffyrdd.



Fe fydd y canllaw yn helpu i ddelio â'r newidiadau yma. Ac osgoi niwed i bobl a lleoedd.




Y nod ydy gwneud Cymru'n fwy teg, yn fwy gwyrdd ac yn well i bawb.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda busnesau, sefydliadau a chymunedau i wneud i hyn ddigwydd.

# Beth rydyn ni ei eisiau i Gymru




**Erbyn 2050, rydyn ni eisiau:**



- Cymru i gyrraedd **sero net**.



- Cymru i fod yn fwy teg, yn fwy gwyrdd ac yn well i bawb.



- Cymunedau, busnesau, a'r llywodraeth i weithio gyda'i gilydd yn well.



- Pobl i gael swyddi da a'r sgiliau maen nhw eu hangen.



- Gwarchod ac adfer natur.



- Pawb i gael mynediad at swyddi, tai, dysgu, a bywydau iach.




- Iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig i wneud yn dda.



- Cymunedau i helpu i wneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnyn nhw.



- Cymru i ddefnyddio adnoddau'n ofalus.



- Cymru i fod yn arweinydd wrth symud i **sero net**.



- Rhannu ein profiad a'n gwybodaeth i helpu eraill sy'n wynebu newid yn yr hinsawdd.

# Beth sydd angen ei wneud

## 1. Edrych ar effeithiau da a drwg



Edrych ar y problemau a'r buddion posibl, a sut maen nhw'n effeithio ar ei gilydd.

**Er enghraifft, mae defnyddio ynni sy'n well i'r blaned yn gallu:**




- Helpu i wneud ynni'n fwy fforddiadwy.



- Creu cyfleoedd swyddi newydd i wahanol bobl.



**Cwestiynau y dylai sefydliadau feddwl amdanyn nhw wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:**




- Sut mae eich cynllun neu bolisi yn effeithio ar bobl, natur, arian, a diwylliant?
- Oes gennym ni dystiolaeth i ddangos yr effeithiau?
- Ydy e'n gallu gwneud pethau'n fwy teg i bawb?
- Ydy e'n helpu iechyd, y blaned, a busnes?
- Ydy gwahanol grwpiau yn gallu gweithio gyda'i gilydd i gael mwy o fanteision??

## 2. Cydweithio



Mae'n bwysig cynnwys y bobl a'r grwpiau fydd yn cael eu heffeithio fwyaf.



Er enghraifft, siarad yn uniongyrchol â chymunedau lleol i gael eu syniadau a gwybod beth maen nhw'n feddwl.

**Cwestiynau y dylai sefydliadau feddwl amdanyn nhw wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:**



- Ydyn ni wedi meddwl am beth mae pobl ei angen a'i eisiau?
- Beth ydyn ni'n gallu ei ddysgu gan bobl sydd wedi cael eu trin yn annheg i stopio iddo ddigwydd yn y dyfodol?
- Ydyn ni'n gweithio gyda gwahanol grwpiau?



- Ydy gweithio gyda'n gilydd yn gallu adeiladu ymddiriedaeth?
- Ydy'r bobl sydd yn cael eu heffeithio fwyaf wedi bod yn rhan o'r cychwyn cyntaf?
- Ydy hi'n hawdd i bawb gymryd rhan a theimlo eu bod wedi'u cynnwys?

# 3. Cynllunio a gwneud penderfyniadau



Fe ddylai llywodraeth, busnesau, sefydliadau, elusennau a chymunedau ddilyn y canllaw yma. Fe ddylen nhw ei ddefnyddio wrth wneud cynlluniau a phenderfyniadau.

**Cwestiynau y dylai sefydliadau feddwl amdanyn nhw wrth gynllunio a gwneud penderfyniada:**



- Ydyn ni'n meddwl am yr effeithiau hirdymor wrth wneud penderfyniadau?
- Ydy hyn yn helpu i gael gwared ar rwystrau annheg i rai grwpiau o bobl?



- Sut ydyn ni'n edrych i weld os ydy cynlluniau a chamau gweithredu yn gweithio?
- Ydyn ni'n edrych ar y system gyfan wrth wneud cynlluniau a phenderfyniadau?
- Ydy pobl yn gweithio gyda'i gilydd wrth wneud penderfyniadau?
- Ydy sefydliadau yn cymryd rhan  mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau pwysig?
- Ydy cymunedau'n helpu i lunio penderfyniadau?

# Egwyddorion arweiniol




Rydyn ni wedi gwneud 7 egwyddor. Mae’r rhain yn reolau i helpu i gadw pethau’n deg i bobl a’r blaned.



Mae’r 7 egwyddor wedi eu seilio ar nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

# 1. Buddsoddi mewn sgiliau, addysg, ac economi carbon isel

**Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw wrth wneud cynlluniau a pholisïau:**




- Pa swyddi neu gyfleoedd busnes newydd mae hyn yn gallu eu creu?
- Oes gan bobl y sgiliau sydd eu hangen?



- Sut ydyn ni'n gallu helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol?
- Sut y bydd yn cefnogi gweithwyr, busnesau a sgiliau?



- Sut y bydd yn lleihau carbon a defnyddio adnoddau yn ddoeth?
- Pa ymddygiadau mae'n ei annog neu'n stopio?
- Sut y bydd yn helpu cymunedau lleol a lleihau niwed?

## 2. Delio â newid yn yr hinsawdd a gwarchod natur



**Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw wrth wneud cynlluniau a pholisïau:**

- Ym mha ffyrdd fydd e'n effeithio ar yr amgylchedd?
- Sut y bydd yn effeithio ar blanhigion, anifeiliaid a natur?
- Sut y bydd yn helpu i leihau a delio â newid yn yr hinsawdd?

## 3. Gwella iechyd a llesg



**Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw wrth wneud cynlluniau a pholisïau:**

- Sut fydd y newidiadau yn effeithio ar iechyd pobl?
- Fydd y newidiadau yn helpu pobl i fyw bywydau iachach?
- Fydd y newidiadau yn ei gwneud hi'n haws i iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol?

## 4. Hyrwyddo cydraddoldeb a rhannu buddion yn deg



**Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw wrth wneud cynlluniau a pholisïau:**

- Pwy fydd yn elwa a phwy sydd yn gallu cael ei effeithio?
- Sut ydyn ni'n gallu lleihau niwed?
- Fydd y newidiadau yn helpu i leihau tlodi a rhoi cyfle teg i bawb?
- Sut fydd gwahanol grwpiau o bobl yn cael eu heffeithio efallai?

## 5. Effaith ar bobl a'r blaned ar draws y byd



**Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw wrth wneud cynlluniau a pholisïau:**

- Ydy'r newidiadau yn gallu niweidio'r amgylchedd neu bobl mewn gwledydd eraill? Sut rydyn ni'n gallu lleihau niwed a bod o gymorth i eraill?
- Sut ydyn n'n gallu  rhannu syniadau da a gwybodaeth gyda gwledydd eraill?
- Ydyn ni'n gallu dysgu o beth mae gwledydd eraillwedi'i wneud?

# 6. Cefnogi diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg



**Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw wrth wneud cynlluniau a pholisïau:**

- Ydy cymunedau wedi bod yn rhan o'r newidiadau?
- Ydy'r newidiadau yn diogelu diwylliant ac iaith Cymru?
- Fydd y newidiadau yn gwneud diwylliant yn fwy amrywiol?
- Ydy traddodiadau a gwybodaeth leol wedi'u cynnwys?

# 7. Cynnwys cymunedau o’r dechrau wrth wneud cynlluniau



**Cwestiynau i feddwl amdanyn nhw wrth wneud cynlluniau a pholisïau:**

- Sut fydd pobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau?

- Sut mae pobl yn gallu rhannu beth maen nhw’n feddwl a helpu i gynllunio atebion?



- Ydy grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli wedi cael eu cynnwys? Mae’r rhain yn bobl sydd â llai o gyfleoedd neu sydd ddim wedi’u cynnwys digon.

- Sut fydd y newidiadau yn gwneud cymunedau’n ddiogel ac yn gysylltiedig?

# Sut fyddwn ni’n defnyddio’r canllaw




Fe fydd y canllaw yn helpu i ddatblygu cynllun o’r enw **Cyllideb Carbon 3 (2026–2030)**.



Fe fyddwn ni’n gweithio gyda sefydliadau, busnesau a chymunedau eraill i roi cynnig ar y canllaw.



Fe fyddwn ni’n gwrando ar beth mae pobl yn feddwl ac yn gwneud newidiadau os oes angen.


## 1. Edrych ar effeithiau da a drwg



Fe fyddwn ni'n casglu ac yn rhannu gwybodaeth am sut mae gweithredoedd yn effeithio ar bobl a'r blaned.



Fe fydd hyn yn helpu i wneud newidiadau sy'n deg i bawb.




Fe fyddwn ni'n defnyddio adroddiadau, asesiadau ac adborth gan ddigwyddiadau a sefydliadau.



Fe fyddwn ni'n dysgu gan wledydd eraill am eu profiadau.


## 2. Cydweithio



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda grwpiau i wneud offer a chanllawiau i symud i **sero net** mewn ffordd deg.



Mae hyn yn meddwl gweithio tuag at **sero net** heb niweidio pobl na'r blaned.




Fe fyddwn ni'n helpu gweithwyr, busnesau, a'r llywodraeth i siarad am risgiau a chyfleoedd.



Fe fyddwn ni'n cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau am yr hinsawdd.

## 3. Defnyddio'r canllaw




Fe fyddwn ni;n  dilyn yr egwyddorion wrth wneud polisïau llywodraeth.



Fe fyddwn ni'n edrych ar sut mae polisïau'n effeithio ar wahanol grwpiau. Fel hil, oedran, rhyw, anabledd, crefydd, ac arian.




Fe fydd hyn yn helpu pobl sy'n gwneud polisïau i wneud penderfyniadau gwell. A rhoi offer defnyddiol iddyn nhw wneud y penderfyniadau cywir.


# Sut mae pobl sy'n ymwneud â gwneud cynlluniau a phenderfyniadau yn gallu defnyddio'r canllaw



Mae angen i lywodraethau, cyrff cyhoeddus, busnesau, elusennau a chymunedau weithio gyda'i gilydd.




Fe ddylai pawb ddefnyddio'r canllaw wrth wneud cynlluniau a phenderfyniadau.




Dilyn yr egwyddorion i helpu Cymru i gyrraedd ei nodau llesiant. Ac i wneud penderfyniadau sy'n deg i bawb.


# Y Sector Cyhoeddus



Y sector cyhoeddus ydy gwasanaethau mae'r llywodraeth yn talu amdanyn nhw. Fel cynghorau, ysgolion ac ysbytai.



Fe ddylai'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill ddefnyddio'r canllaw wrth wneud neu ddiweddaru cynlluniau a pholisïau.



Defnyddio'r canllaw pan yn dechrau gwneud unrhyw gynlluniau neu bolisïau.




Fe fydd y canllaw yn helpu'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill i ddilyn y gyfraith. Ac ateb nodau llesiant.

## Busnes, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol



Defnyddio'r canllaw wrth wneud neu ddiweddaru cynlluniau a pholisïau.




Edrych ar y **Canllawiau Datgarboneiddio Busnes** am fwy o help.

# Geiriau anodd

## Sero net

Mae sero net yn meddwl faint o nwy niweidiol rydyn ni'n ei roi i'r awyr, yn ddim mwy na'r swm rydyn ni'n gallu ei gymryd allan ohono.

Rydyn ni'n gwneud hyn trwy:

- Lleihau faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi i'r awyr.
- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.